Cyswllt celf
Arts Connection

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

1af HYDREF 2006

CYSWLLT CELF

ADRODDIAD

YR UNDEB EWROPEAIDD
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
AMCAN 3

EUROPEAN UNION
European Social Fund
OBJECTIVE 3

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Lluniau

Chwith Top:	Dathlu Creadigrwydd Plant 2006
	Gweithdai drymio yng Ngŵyl y Gweithdy 2006
De:	Tân Tanat 2006
	Symposiwm Cerfluniau Llyn Efyrnwy 2005
Canol:	Tony Skeggs yn recordio Vendetta 2006
	Dathlu Creadigrwydd Plant 2006
	Prosiect Hwiangerddi Cymraeg 2006
	Dathlu Creadigrwydd Plant 2006
Gwaelod:	Strafagansa Celf 2006
	Perfformiad Syrcas-Circus 2006

CYSWLLT CELF

Cynnwys

Adroddiad y Cadeirydd	1
Adroddiad y Cyfarwyddwr	2
Dathlu Creadigrwydd Plant	3
Prosiect Cerdd Ieuenctid Powys	5
Strafagansa Celf	6
Prosiectau dan Reolaeth	7
Prosiectau Bychan	9
Digwyddiadau Cymraeg	10
Aelodau a Manylion Swyddfa	11
Pobl	13
Arianwyr a Phartneriaid	15
Manylion Cyswllt	16

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Adroddiad y Cadeirydd

Yn ystod y flwyddyn hon, ehangu a datblygu sydd wedi bod yn brif feysydd gwaith Cyswllt Celf. Rydym wedi gweld ffrwyth ein gwaith o safbwynt at-gyfnerthu ein strwythur, polisïau a gweithdrefnau a'n gwaith ar gynalad-wyedd.

Mae Siân Walters wedi ymuno â fel Swyddog Prosiect, ac mae hi eisoes wedi gwneud cyfraniad sylweddol at waith y tim, sydd eisoes yn cynnwys Karen a Nerys. Trwy eu gwaith hwy a gyda chefnogaeth y Bwrdd, mae Cyswllt Celf wedi meithrin enw da am gywirdeb ac ansawdd. O ganlyniad, rydym yn awr yn ystyried ehangu ein seiliau cyllido er mwyn cynnal gwaith sydd eisoes ar y gweill ac i greu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Rydym yn ystyried y posibilrwydd o gofrestru fel elusen gyda chymorth yr ymgyng-horydd Phyllida Shaw, a hynny gyda chefnogaeth Cyngor y Celfyddydau.

Bydd y flwyddyn nesaf yn groesffordd i'r mudiad mewn perthynas â phenderfyniadau cyffrous i'w gwneud ynghylch dyfodol Cyswllt Celf.

Diolch i chi oll, fel arfer, am gefnogaeth a chymorth y Bwrdd a'r aelodau, ac i'n partneriaid a'n haelodau cyswllt. O safbwynt cynaladwyedd, diolchiadau arbennig i Gyngor y Celfyddydau a Phyllida Shaw am y gefnogaeth arian-nol a'r arweiniad.

Gobeithio mai'r flwyddyn nesaf fydd yr orau erioed.

Jeannie Wells

Adroddiad y Cyfarwyddwr Celfyddydau

Yn ogystal â blwyddyn lwyddiannus arall gyda'n rhaglen o brosiectau craidd, o ganlyniad i gefnogaeth ariannol ychwanegol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, trwy Gyngor Celfyddydau Cymru, rydym wedi gallu trefnu mwy o brosiectau ar raddfa fawr a graddfa fach. Mae ein gwaith ar y cyd gyda Syrcas - Circus yn ystod y Gwanwyn ac yn fwy diweddar ein gwaith gydag 8 o ysgolion lleol i gynhyrchu CD o ganeuon Cymraeg ar gyfer plant ifanc yn enghreifftiau nodedig o brosiectau ychwanegol eleni. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau newydd yn ogystal â rhai'r gorffennol, ac wedi gwneud mwy o weithgareddau prosiect wedi'u rheoli. Mae artistiaid newydd wedi ymuno ag ac wedi gweithio i Gyswllt Celf, ac rydym wedi ariannu hyfforddiant ar gyfer unigolion a grwpiau o artistiaid.

Yn fy marn i, un o'r pethau gorau am weithio yn swyddfa Cyswllt Celf yw gweld y rhyngweithio rhwng y grwpiau unigryw. Mae llwyddiant yr holl bethau a nodir uchod yn dibynnu ar y rhyngweithio hynny, felly hoffwn ddiolch i:

- ein hartistiaid sy'n parhau i gynhyrchu gwaith gwych a newydd, yn ogystal â chynnig safbwynt ffres ar ddatblygiadau newydd
- aelodau ein Bwrdd am yr ystod o sgiliau a phrofiad a gynigir inni, eu hamser a'u diddordeb parhaus er budd y cwmni
- Nerys a Siân, fy nghydweithwyr, sy'n cynnig amrediad eang o sgiliau mewn meysydd hanfodol, a hyder a mewnbwn ein partneriaid, ein harianwyr a'n cyfeillion.

Bu peth ailwampio ar ein swyddfa eleni, oedd yn cynnwys cyfrifiaduron newydd, ac erbyn hyn mae'r hen stordy yn ystafell gyda chyfrifiadur Apple Mac, meddalwedd Final Cut Pro a chamera fideo Canon XM2 lle gellir golygu ffilmiau. Hoffwn ddiolch i Ruth Carter a Tony Wainwright am yr amser sylweddol a dreuliwyd ar ymchwilio i'r offer ar gyfer yr ystafell olygu a'r amser a dreuliwyd yn gwneud gwaith gosod a pharatoi gyda Siân. Eisoes, mae'r adnodd newydd hwn wedi golygu ein bod yn gallu datblygu prosiectau newydd, gwella ein dulliau marchnata a chynnig hyfforddiant a defnydd o offer i'n hartistiaid.

Karen Ramsay

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Dathlu Creadigrwydd Plant

Hyd yn hyn eleni, mae'r prosiect wedi gwasanaethu 20 o ysgolion yng Ngogledd Powys, gan gynnig dros 2,400 o lefydd i gyfranogwyr. Defnyddiwyd cyfryngau amrywiol fel arfer i gynhyrchu'r gwaith, a chynhyrchwyd ystod eang o weithiau celf a chrefftau. Ymysg y prosiectau roedd: Band Pres Jaipur Kawa, gwaith metel, adeiladu tai 3-D, gwaith animeiddio, paentio tirluniau, gwneud eitemau o helyg, gwaith mosaig, gwaith batik a llawer mwy. Roedd gofyn mawr am y prosiect, ac fe'i dderbyniwyd yn dda yn yr ysgolion. Dangosir isod rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd gan ysgolion ac artistiaid:

" Hir oes i Gyswllt Celf, oherwydd mae'r profiadau hyn yn hynod werthfawr i blant sy'n byw mewn ardal mor wledig"

Ysgol Efyrnwy

"Mae'r disgyblion ar eu hennill o weithio gydag artist proffesiynol, felly daliwch ati efo'r gwaith da"

Ysgol Llanfihangel

" Dysgodd y plant technegau artistig newydd - cyflwynwyd agwedd ymchwil mewn hanes a defnyddiwyd mathemateg yn ein cymwysiadau. Roedd y canlyniadau'n lliwgar iawn, ac mae'r ysgol yn hapus iawn"

Sally Duckers

Artistiad —Stan Jankowski
Ysgol Llanrhaeadr



Artistiad —Hilary Roberts
Ysgol Meifod

"Mae'r plant wedi mwynhau'r prosiect yn fawr"

Ysgol Berriew

"Cynhyrchwyd gwaith gwych, a chafodd y disgyblion lawer o hwyl"

Ysgol Meifod

" Roedd lefel y gefnogaeth a'r gwirfoddolwyr yn wych"

Laura Hughes

"Cymorth a chefnogaeth wych. Roedd yn brosiect uchelgeisiol…ond rhoddodd yr ysgol cymorth ac amser ychwanegol i'm helpu ac roedd hyn yn golygu fod y prosiect yn llwyddiant ysgubol."

Hilary Roberts

CYSWLLT CELF

Artistiad —Ingrid Maugham
Ysgol Ardwyn

Hefyd eleni, mae'r prosiect wedi creu CD gydag 38 o Hwiangerddi Cymraeg o'r enw 'Jac y Do' – disgyblion o 8 ysgol wahanol yn yr ardal oedd yn canu'r hwiangerddi, a'r rheolwr oedd Arfon Gwilym.

Dyffryn Banw

Llanfihangel

Llanfair Caereinion

Llanerfyl

Llanfyllin

Llanrhaeadr

Pennant & Llanwddyn

Pontrobert

Grŵp o sipsiwn Rajasthani o Jaipur yng Ngogledd India yw Band Press Jaipur Kawa. Mae'r band yn cynnwys 8 o gerddorion, fakir a'r ddawnswraig Sapera Kalbelya. Hameed Khan Kawa yw sylfaenydd y grŵp, a rhoddwyd perfformiad i blant Ysgol Gynradd Llanfyllin – gwirionwyd y plant gan y perfformiad.

Prosiect Cerdd Ieuenctid Powys

Tony Skeggs Yn recordio gyda Vendetta

Mae Prosiect Cerdd Ieuenctid Powys yn galluogi pobl ifanc, na fyddent fel arall yn cael mynediad i offer a gwersi proffesiynol, greu a pherfformio cerddoriaeth. Bydd llawer sy'n ddechreuwyr ar y prosiect hwn, yn mynd ymlaen i sefydlu bandiau neu ddatblygu sgiliau offerynnol neu leisiol. Rydym hefyd yn cynnig dosbarthiadau meistr a chyfleoedd recordio i fandiau sydd eisoes yn bodoli. Eleni, mae bandiau sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect hwn, wedi perfformio yng Ngŵyl y Gweithdy a'r Ŵyl Roc a Phop Cenedlaethol i Bobl Ifanc yn yr NEC, Birmingham.

Cynhaliwyd gweithdai yn y Drenewydd, Llanfyllin, Machynlleth, Llanidloes, Y Trallwng a Llanfair Caereinion – hwyluswyr y sesiynau hyn oedd Tommy Mills, Laurance Sharp, Tony Skeggs, Tony McCallum a Jock Tildesley.

Trefnwyd diwrnod terfynol o weithdai a pherfformiadau oedd yn cynnwys cyfranogwyr o bob un o'r canolfannau a nodwyd uchod yn Theatr Llwyn, Llanfyllin.

Grŵp Jazz Pobl Ifanc Yn perfformio yng Ngŵyl y Gweithdy

Strafagansa Celf

Strafagansa Celf y Gwanwyn

Bu bobl o ganolfan Rhoslyn yn cymryd rhan mewn diwrnod o gynhyrchu printiau yn Neuadd y Santes Fair yn y Trallwng ym mis Ebrill 2006. Ar ôl tynnu lluniau, fe'u trosglwyddwyd i bolystyren ac yna cafwyd cyfle i ddewis o liwiau amrywiol i rolio ar ben y polystyren ac yna eu hargraffu ar bapur. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn, ac roedd pawb wedi mwynhau'n fawr.

Cynhaliwyd dau ddiwrnod o weithdai'n seiliedig ar gelfyddydau gweledol gyda Mencap Llanfyllin ym mis Chwefror, a chafwyd cyfle i fwynhau cynhyrchu printiau a phortreadau.

Strafagansa Celf yr Haf

Eleni, daeth grŵp o 25 oedolion gydag anableddau dysgu o Roslyn, Mencap, Tre'r Llai, Cae Melyn ac Academi Efyrnwy i gymryd rhan yn y prosiect. Trefnwyd gweithdai cerddoriaeth, oedd yn cynnwys "boom whacker" a delweddau digidol gyda Karin Gomm, dawnsio i gerddoriaeth gyfoes yng nghwmni Helen Young a phaentio a gwneud cerfluniau gydag Ingrid Maugham. Pedair wythnos oedd hyd y prosiect, a daeth i ben gyda digwyddiad i arddangos y gwaith a gynhyrchwyd ar y diwrnod terfynol er mwyn dathlu cyraeddiadau'r prosiect. Diolch hefyd i'r hwyluswyr am eu cymorth gwych: Sally Duckers, Alwyn Wesson-Caberwal, Catherine Lewis a Hayley Mann.

Prosiectau dan Reolaeth

Mae Cyswllt Celf wedi rheoli prosiectau mawr a bach eu maint ar ran mudiadau eraill eleni. Ymysg y rhain mae:

- Dysgu i'r teulu trwy gelfyddydau, drymio, dawns, crefftau, ysgrifennu creadigol a sesiynau blasu celf ar ran Cyngor Sir Powys.
- Gweithdai Cerddoriaeth ar ran Gwasanaeth Ieuenctid Powys ym Machynlleth a Llanfair Caereinion.
- Roedd Prosiect Dawns Cegidfa yn rhedeg ym mis Mawrth a mis Mehefin pan gafodd oedolion a phlant gyfle i gymryd rhan mewn 6 o sesiynau wythnosol i ddarganfod dulliau dawns amrywiol. Bydd y prosiect hwn yn parhau i'r flwyddyn nesaf.
- Diwrnod o weithgareddau celfyddydol amgylcheddol i ysgolion oedd yn dod i Ŵyl Gregynog gyda'r artist Hilary Roberts yn cynnal gweithdy ar Gelfyddydau Gweledol.
- Prosiectau Celf i Wasanaeth Ieuenctid Powys yn Llanfyllin.

Cerflun o Ŵyl Gregynog

Celf i Bobl Ifanc. Bu 5 o ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Llanfyllin, yn cymryd rhan yn y prosiect hwn, a phob un ohonynt yn perthyn i'r categori pobl ifanc mewn perygl. Bu'r grŵp yn gweithio gyda'i gilydd dros gyfnod o 6 mis a'r man cychwyn oedd cyfarwyddo gyda'r offer fyddai ei angen i greu ffilm fer, megis gweithdai camera i allu trin y camera'n hyderus, a theimlo'n gyfforddus o flaen y camera. Aethant i ymweld â Gŵyl Ffilm KINO, lle cafwyd cyfle i wrando ar gyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol yn y maes. Crëwyd cwmni cynhyrchu gan y grŵp, dan yr enw 'Last Chance Productions' a dyluniwyd logo ar gyfer eu papur pennawd ac i'w ddefnyddio ar ôl creu'r cynhyrchiad. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda myfyrwyr ac athrawon ynghylch eu sylwadau ar ystod o faterion yn ymwneud â'r ysgol, ac arweiniodd hyn at raglen ddogfen gyda'r enw 'Have We Got Views For You'.

O ystyried nad oedd gan unrhyw aelod o'r grŵp unrhyw brofiad blaenorol o drin offer ffilmio, dangoswyd lefel sgiliau gwych ganddynt. Trwy gydol y prosiect, llwyddwyd i ennill hyder a chafwyd cyfle hefyd i reoli'r prosiect. Roedd eu gwaith hefyd yn cyfrannu at Wobr Dug Caeredin. Arweinyddion y gweithdai oedd Ruth Carter a Tony Wainwright gyda chymorth gan weithiwr ieuenctid Llanfyllin, Dux.

Ariannwyd y prosiect gan y Gronfa Loteri Fawr a chronfa Cyfle Cyngor Sir Powys trwy Cyswllt Celf.

CYSWLLT CELF

Daeth **Syrcas Circus** i Lanfyllin i gynhyrchu prosiect cymunedol i godi ymwybyddiaeth ynghylch materion amgylcheddol trwy sgiliau syrcas a'r celfyddydau perfformio. Ariannwyd y prosiect hwn gan Gyswllt Celf ac Amgylchedd Cymru, a derbyniwyd cefnogaeth hefyd gan Gyngor Sir Powys.

Rhedodd y prosiect rhwng mis Chwefror ac Ebrill, a chynhaliwyd gweithdai bob yn ail benwythnos oedd yn cynnwys sgiliau syrcas, symud, cerddoriaeth, cynllunio a pherfformio. Roedd y prosiect yn agored i bobl o bob oed a bob gallu, a byddai o leiaf 20 o bobl ym mhob gweithdy, dan arweiniad tîm o 3 o unigolion proffesiynol. Yn ystod y gweithdai hyn, roedd y cyfranogwyr yn dysgu symud ar y trapîs, stilts, diabolo, ac acrobatig a llawer mwy. Yn sgil y pum niwrnod o weithdai, cynhaliwyd perfformiad yn ystod wythnos gyntaf Gwyliau'r Pasg. Hefyd aeth y cyfranogwyr o gwmpas yn casglu sbwriel o safle'r Babell Fawr er mwyn gallu defnyddio'r sbwriel a gasglwyd yn ystod eu perfformiad; hefyd aethant ar orymdaith trwy dref Llanfyllin cyn y perfformiad i bobl cael blas ar eu sgiliau. Roedd y babell lle cynhaliwyd y perfformiad dan ei sang, a'r gynulleidfa wedi mwynhau'r perfformiad yn fawr.

Roedd pawb oedd wedi bod yn rhan o'r prosiect yn teimlo eu bod ar eu hennill o gymryd rhan yn y gweithdai, a gwelwyd hyn yn y ffaith fod pob un o'r cyfranogwyr craidd wedi mynychu pob un gweithdy, hyd yn oed pan oedd troedfedd o eira ar y llawr! Rhoddodd y prosiect gyfle i'r rhai oedd yn rhan ohono i gael hwyl, cynyddu eu hyder, dysgu sgiliau newydd, creu amgylchfyd cymdeithasol, a llwyddodd hefyd i ddod ag aelodau gwahanol o'r gymuned at ei gilydd mewn gweithgaredd creadigol.

Prosiectau Bychan

Gweithdai Drymio – Gŵyl y Gweithdy

Clawr CD o Prosiect Oldford

Gweithdai Llyn Efyrnwy

Cynhaliwyd nifer o brosiectau partneriaeth gydag adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Powys – yn eu mysg Bywluniadau a Ffotograffïaeth Portreadu.

Trefnodd Cyswllt Celf ddilyniant i brosiect Canu Cymunedol Oldford ar Ystâd Oldford yn y Trallwng (ardal Cymunedau'n Gyntaf). Bydd y CD a gynhyrchwyd yn cael ei werthu er mwyn codi arian ar gyfer yr uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty'r Amwythig.

Gwnaethpwyd cyfraniad at Ŵyl y Gweithdy trwy ddarparu gweithdai celfyddydau, canu a drymio ar gyfer teuluoedd.

Hefyd trefnwyd pedwar diwrnod o weithdai i ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghwmni Sally Duckers, ochr yn ochr â'r Symposiwm Cerfluniau yn Llyn Efyrnwy.

Murlun Golau a Lliwiau Llanwddyn

Crëwyd y murlun ar y thema Golau a Lliwiau yn Llanwddyn yn y Gwanwyn, a chyfrannodd yr ysgol a'r gymuned leol at y prosiect. Cyswllt Celf oedd yn gyfrifol am reoli'r prosiect a ariannwyd gan gwmni Dŵr Hafren Trent. Sally Duckers oedd arweinydd y gweithdai a hi oedd yn gyfrifol am ddylunio'r murlun.

Cynhyrchwyd y fframiau sgwâr i ymestyn y defnydd sidan ac i greu bocsys golau gan aelodau o Glwb Ieuenctid Llanwddyn. Trefnwyd gweithdai mewn paentio sidan gyda phlant tair oed yn y Cylch Meithrin, babanod a phlant iau ysgol gynradd Llanwddyn ynghyd â dwy sesiwn blasu gyda'r hwyr i oedolion. Y clwb ieuenctid oedd yn gyfrifol am greu tri gwaith celf wedi'u hôl-oleuo, gan ddefnyddio arwyddeiriau fel man cychwyn, a defnyddio papurau tryloyw, seloffen a laminiadau. Cynhyrchwyd cyfanswm o naw ffrâm unigol ar y murlun, sy'n arddangosfa unedig ar ôl ei oleuo.

Mae'r murlun yn arddangosfa sefydlog yng nghyntedd Canolfan Gymunedol Llanwddyn.

Digwyddiadau ac Arddangosfeydd Cymraeg

Trefnwyd nifer o weithdai a digwyddiadau mewn partneriaeth gydag Adran Addysg Dysgu Gydol Oes a Datblygu Cyngor Sir Powys. Ymysg y rhain oedd:

- Ysgrifennu Creadigol gyda Cyril Jones
- Ffotograffïaeth gyda Tryfan Jones
- Cafwyd cyflwyniadau gan Christine Mills a Penri Roberts
- Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Adloniant Tanat i ddarparu'r band enwog Cymraeg 'Frisbee' ar gyfer pobl ifanc yr ardal.

Arddangosfeydd
Bu arddangosfa o waith a grëwyd gan blant Ysgol Gungrog ar y thema 'symud' yn Llyfrgell y Trallwng yn ystod mis Mai 2006.

Bu disgyblion Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn gyfrifol am lwyfannu dwy arddangosfa o waith blwyddyn 8 ar lawr uchaf y Ganolfan Ieuenctid a Chymuned.

Dangoswyd ffilmiau a grëwyd gydag Ysgol Gynradd Machynlleth yn y 'Pink Snowball Awards'. Cyrhaeddodd y plant oedd wedi cymryd rhan mewn limwsîn hir, a chawsant groeso arbennig iawn wrth gyrraedd y Tabernacl ym Machynlleth. Cawsant glod mawr am eu gwaith.

Mae llawer o'r gwaith a gynhyrchwyd o fewn ysgolion fel rhan o'r prosiect i Ddathlu Creadigrwydd Plant wedi cael ei arddangos ym mhob un o'r ysgolion dan sylw i'r rhieni a'r llywodraethwyr cael ei weld.

Aelodau a Gwybodaeth am y Swyddfa

Hyfforddiant

Mae aelodau staff Cyswllt Celf wedi derbyn hyfforddiant mewn codi arian, marchnata a ffotograffïaeth ddigidol. Daeth 12 o aelodau sy'n artistiaid i ddiwrnod ynghylch Ymwybyddiaeth am Sgiliau Sylfaenol, a daeth 10 i ddiwrnod o hyfforddiant a drefnwyd ar y cyd gyda Fforwm Celfyddydau Powys. Mae aelodau unigol wedi derbyn tystysgrifau ar ôl derbyn hyfforddiant mewn cyrsiau amrywiol megis celfyddydau o fewn addysg, pypedwaith a Fforwm Theatr. Dyma adroddiad gan un o'n haelodau:

Ym mis Ionawr, roeddwn yn ddigon ffodus i dderbyn arian hyfforddi gan Gyswllt Celf i fynychu cwrs dwys, wythnos o hyd, ar theori ac arferion Fforwm Theatr - pwnc llosg. Rwyf wedi cael profiad o fod yn gyd-gyfrifol am redeg Cwmni Theatr Pypedau yng nghanolbarth Cymru, ac roeddwn felly yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r trafodaethau ar arferion cyfoes ym myd y theatr. A hyn yn enwedig o safbwynt y sawl sy'n arloesol yn y maes trafod ac ymestyn a datblygu eu harferion.

Mae'r Fforwm Theatr, oherwydd ei natur gynhenid, yn ychwanegu rhywfaint o flas yn ogystal ag ychydig o ddadansoddiad beirniadol i'r fei. Mae Agusto Boal (sylfaenydd y fforwm), wedi bod yn corddi dyfroedd theatr draddodiadol i weld beth sy'n llechu yno. Ei ddarganfyddiad oedd bod y theatr yn gyfrwng gwych i agor a bywiogi trafodaeth i bawb, ond mae llawer o arferion theatr yn ddiflas, yn ddiymdrech ac yn ymsongar, a'r farn yw y dylai fod yn fwy rhyngweithiol, a rhoi cyfle i bawb chwarae rhan a bywiogi theatr yn gyffredinol.

Yn ei awgrym ef, mae crefft yr actor yn galluogi'r gynulleidfa i gysylltu â a bod yn rhan o berfformiad yn hytrach ba nod yn rhwystr iddynt. Byddai drama'n rhedeg hyd at bwynt argyfwng, pan fyddai'r prif gymeriad yn ildio i bwysau, er iddo geisio peidio â gwneud hynny. Dyna pryd mae'r digrifwr yn dod i'r amlwg, (mae'r digrifwr yn debyg i brif gogydd am wn i. Fo/hi sy'n rhyngweithio gyda'r gynulleidfa, yn perswadio'r gynulleidfa i gymryd rhan, ac yn gwthio pobl i ystyried tu hwnt i'r hyn sy'n amlwg) yn cynnig cyfle i unrhyw un yn y gynulleidfa camu mewn i'r ddrama, rhywbryd cyn iddi fethu a "gwneud yn well". Ar ôl i ychydig o bobl rhoi cynnig arni, bydd y gynulleidfa fel arfer yn cael blas ar y rhyngweithio, a bydd y cawl yn cryfhau fesul eiliad. Mae'r darnau actio yn eistedd yn nŵr y drafodaeth, ac yn cymysgu'r blasau amrywiol sydd wedi dod i'r blas cyffredinol trwy'r cyfranogwyr unigol.

Y syniad yw annog y gynulleidfa i weld natur gymhleth unrhyw sefyllfa fel cyfle i actio mewn dulliau amrywiol, yn hytrach na fel anhrefn. Syniad y ddrama yw peidio â rhoi atebion pendant ond i godi cwestiynau perthnasol i bobl ceisio goresgyn a rhoi cyfle iddynt ddod o hyd i'w hatebion eu hunain.

Roedd y cwrs dan arweiniad Adrian Jackson, Cardboard Citizens – cwmni theatr o'r radd flaenaf i bobl ddigartref. Yn ystod yr wythnos, cafwyd cyfle i ymarfer a thrafod theatr fforwm, a llawer o'r technegau sy'n sail iddi. Cawsom gyfle i gymryd rhan mewn llawer o

gemau a gweithgareddau ac iddynt resymau niferus ac amrywiol. Ond yn bwysicach na dim, cawsom gyfle i fod yn rhan o gyflwyniad theatr gan Cardboard Citizens.

Chwaraewyd rhan y Digrifwr gan Adrian Jackson (sylfaenydd Cardboard Citizens) - mae o wedi cael blynyddoedd o brofiad ar dechnegau ar y llinell flaen. Llwyddodd i'n gwthio tu hwnt i'r amlwg, ac annog cyfranogaeth gyflawn, doedd o ddim yn fodlon derbyn profiadau goddefol, ond ei nod oedd cael blas cyflawn o ganlyniad i'r profiad. Yn fy marn i, mae'r wythnos ddwys hon wedi fy nysgu ffordd hollol newydd o goginio. Bydd y perlysiau'n cymysgu'n dda, ac yn cyflenwi'r cynhwysion sydd gen i'n barod, sef pyped-waith a chwarae. Bron iawn y gallaf flasu'r hyfrydwch coginiol sydd i ddod, a hynny llawn rhyfeddod a diolch.
Joe Munton
Vagabondi Puppets

Bwletinau

Dosbarthwyd 9 bwletin i aelodau yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Eu nod hwy oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ynghylch hyfforddiant ac arian, ac roeddynt yn cynnwys cyfleoedd swyddi ac erthyglau gan Gyswllt Celf ac ar weithgareddau cyffredinol ym maes y celfyddydau, yn ogystal â hysbysu aelodau am ddigwyddiadau ar arddangosfeydd lleol. Mae nifer o aelodau wedi llwyddo i gael gwaith neu gyfleoedd hyfforddi o ganlyniad i dderbyn gwybodaeth gennym ni. Byddwn yn anfon cymaint o danysgrifiadau â phosibl allan trwy e-bost.

Gwefan



Mae'r wefan wedi cael ei diweddaru, a bydd hyn yn digwydd eto ym mis Hydref. Mae mwy o aelodau wedi anfon manylion ar gyfer y tudalennau ar artistiaid, ac ar hyn o bryd rydym wrthi'n ceisio gwneud y wefan y fwy rhyngweithiol i aelodau a chyfranogwyr ein prosiectau.

Swyddfa

Derbyniwyd Grant Cyfalaf eleni gan Gyngor Celfyddydau Cymru, sydd wedi talu am gyfrifiaduron newydd (mawr eu hangen) i'r swyddfa. Rydym hefyd wedi prynu cyfrifiadur Apple Mac, meddalwedd golygu Final Cut Pro a chamera fideo Canon XM2. Gall aelodau ddefnyddio'r offer hyn yn sgil derbyn hyfforddiant, ac mae nifer o brosiectau ffilm wedi'u cwblhau'n barod.

Ystadegau

Wrth lunio ein hadroddiad i Gyngor Celfyddydau Cymru (blwyddyn ariannol 05-06) nodwyd y ffigurau canlynol:

Nifer y llefydd i gyfranogwyr mewn gweithdai	5530
Nifer y gweithdai	448

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Pobl

Aelodau'r Bwrdd

Jeannie Wells	Cadeirydd
Hilary Roberts	Is-gadeirydd a Cynrychiolydd Cymuned Hirnant ac Addysg
Ingrid Maugham	Cynrychiolydd Gwahaniaethau Dysgu
Cordelia Weedon	Cynrychiolydd Artistiaid
Helen Rees	Cynrychiolydd Cyngor Tref Llanfyllin
Kathy Edmonds	Cynrychiolydd Addysg Uwch
Sheela Hughes	Cynrychiolydd Cyngor Sir Powys
Gary Northeast	Cynrychiolydd Artistiaid
Tony Skeggs	Cynrychiolydd Cymuned Llanfyllin

Staff

Karen Ramsay	Cyfarwyddwyr Celfyddydau
Siân Walters	Cyfarwyddwr Prosiectau
Nerys Evans	Swyddog Gweinyddol

CYSWLLT CELF

Artistiaid sy'n Aelodau sydd wedi gweithio ar y prosiectau

Marja Bonada	Cerflunydd	Dathlu Creadigrwydd Plant
Ruth Carter	Cynhyrchydd Ffilmiau	Celf i Bobl Ifanc
Elinor Davies	Artist Gweledol	Dathlu Creadigrwydd Plant
Sally Duckers	Artist Gweledol	Dathlu Creadigrwydd Plant, Murlun Llanwddyn, Strafagansa Celf, Symposiwm Cerfluniau
Veronica Gibson	Artist Tirluniau	Dathlu Creadigrwydd Plant
Karin Gomm	Cerddor/Hwylusydd	Strafagansa Celf
Laura Hughes	Artist Gweledol	Dathlu Creadigrwydd Plant
Stan Jankowski	Cerflunydd	Dathlu Creadigrwydd Plant
Caroline Lowe	Cerflunydd	Dathlu Creadigrwydd Plant
Ingrid Maugham	Artist Gweledol	Dathlu Creadigrwydd Plant, Strafagansa Celf-
Tommy Mills	Cerddor	Prosiect Cerdd Ieuenctid Powys
Gary Northeast	Cerddor	Prosiect Hwiangerddi Cymraeg
Hilary Roberts	Artist Gweledol	Dathlu Creadigrwydd Plant
Tony Skeggs	Cerddor	Prosiect Cerdd Ieuenctid Powys, Ystâd Oldford, Prosiect Hwiangerddi Cymraeg
Laurance Sharp	Technegydd	Prosiect Cerdd Ieuenctid Powys
Tony Wainwright	Cynhyrchydd Ffilmiau	Celf i Bobl Ifanc
Helen Young	Dawns	Strafagansa Celf, Prosiect Dawns Cegidfa
Vagabondi Puppets	Perfformwyr	Dathlu Creadigrwydd Plant

Hwyluswyr ac Artistiaid heb fod yn Aelodau o Brosiectau Partneriaeth

Dux	Gwasanaeth Ieuenctid	Celf i Bobl Ifanc
Janet Evans	Dawns	Prosiect Dawns Cegidfa
Arfon Gwilym	Cerddor	Prosiect Hwiangerddi Cymraeg
Cassandra Hatjiandoniou	Dawns	Prosiect Dawns Cegidfa
Catherine Lewis	Hwylusydd	Strafagansa Celf
Hayley Mann	Hwylusydd	Strafagansa Celf
Toby McCallum	Cerddor	Prosiect Cerdd Ieuenctid Powys
Pat Smith	Dawns	Prosiect Dawns Cegidfa
Jock Tildesley	Cerddor	Prosiect Cerdd Ieuenctid Powys
Alwyn Wesson-Caberwal	Hwylusydd	Strafagansa Celf

Arianwyr a Phartneriaid

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Sir Powys

Severn Trent Water

Y Loteri Genedlaethol

The Workhouse Festival

TRAC

Mencap

Clwyd Alyn Cymdeithas Tai

Syrcas-Circus

Fforwm Gymunedol Llanfyllin (Quick Win)

Carad

Celf o Gwmpas

Access All Areas

Diolch i'r canlynol am y ffotograffau yn yr adroddiad hwn:

Cyswllt Celf

Ingrid Maugham

Hilary Roberts

Catherine Morris

Stan Jankowski

Arfon Gwilym

Cyswllt celf Arts Connection

CYSWLLT CELF

Llawr Uchaf
Canolfan Ieuenctid a
Chymunedol
Llanfyllin
Powys
SY22 5BB

Ffon: 01691 648 929
Ffacs: 01691 648 929

E-bost: karen@artsconnection.org.uk
nerys@artsconnection.org.uk
sian@artsconnection.org.uk
www.artsconnection.org.uk
www.cyswlltcelf.org.uk